

Sut i gefnogi plant ag Oediad Iaith

Cyflwyniad Cyfeiria oediad iaith at sefyllfaoedd lle mae datblygiad sgiliau deall a mynegi yn digwydd yn arafach nag sydd yn nodweddiadol, tra bod anhwylderau iaith neu leferydd yn dynodi gwyriad mwy sylweddol o'r patrwm datblygiadol arferol (Jullien, 2021). Gall hyn fod oherwydd ffactorau dylanwadol amgylcheddol, biolegol a datblygiadol, cymdeithasol ac economaidd (Zengin-Akkuş *et al.*, 2018). Mae oedi datblygiadol wedi bod yn broblem gynyddol ers y pandemig, gyda mwy na pedwar mil o blant yn aros dros 12 wythnos am therapi iaith a lleferydd ym mis Mehefin 2024 (Adran addysg, 2025). Mae plant oed ysgol sydd ag oediad iaith yn wynebu risg uwch o anableddau dysgu a heriau llythrennedd, gan gynnwys anawsterau darllen ac ysgrifennu, yn ogystal ag ymddygiadau ac anawsterau addasu seicogymdeithasol a all barhau i pan y maent yn oedolyn (Jullien, 2021). Er hynny, dylid cydnabod bod plant yn dysgu ar wahanol gyflymderau ac y gall amryw ffactorau bywydol effeithio ar eu datblygiad addysgol (Cyngor sir Ceredigion, 2025).

Adnabod

Mae adnabod ac asesu oediad iaith yn broses allweddol ond cymhleth o fewn datblygiad plentyn, gan ei fod yn hanfodol canfod arwyddion a symptomau'n gynnar er mwyn sicrhau ymyraethau cynnar effeithiol (Nutbrown, 2018). Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn hawdd oherwydd yr amrywiaeth sylweddol mewn patrymau datblygiadol, yn enwedig ymhlith plant dwyieithog neu'r rhai o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, a gall ffactorau cymdeithasol-amgylcheddol neu feddygol, neu achosion idiopathig, effeithio ar berfformiad ieithyddol (Liang *et al.*, 2023). Er hyn, dwedai Dockrell *et al.*, (2017) nid oes unrhyw ymddygiadau ieithyddol diamwys sydd yn gallu adnabod problemau lleferydd neu iaith yn gyson mewn plant. Yn gyffredinol, câi oediad iaith ei adnabod pan fo datblygiad geirfaol, gramadegol neu ymgysylltu ieithyddol plentyn yn arafach na'r disgwyl yn ôl ei oed (Kanhare a Sunderajan, 2019). Ond mae'r gwaith o nodi pryderon cychwynnol yn aml yn dibynnu ar gyfuniad o arsylwadau bywyd go iawn a mewnbwn gan rieni neu staff ysgol, sydd yn tanlinellu pwysigrwydd dull amlddisgyblaethol sensitif (Lohmander *et al.*, 2017).

Diagnosio

Er hynny, dim ond gweithwyr proffesiynol ag arbenigedd ac nid athrawon sydd â'r gallu i ddarparu diagnosis swyddogol (Mroz a Hall, 2010). Mae'r broses ddiagnostig yn cynnwys asesiadau ffurfiol megis profion safonol, sydd â chywirdeb amrywiol ac nad ydynt o reidrwydd yn briodol i bob plentyn, ynghyd â sampl o iaith naturiol a gwerthusiad o gyd-destun cymdeithasol ac addysgol y plentyn er mwyn gwahaniaethu rhwng oedi dros dro a phroblemau iaith barhaus (Jullien, 2021). Er bod sawl math o sgrinio'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, mae tystiolaeth yn dangos amrywiad eang yn eu dibynadwyedd, a bod ymyriadau'n gallu gwella rhai agweddau ar oedi iaith a lleferydd ond heb dystiolaeth i gefnogi eu heffeithiolrwydd mewn plant a ganfuwyd trwy sgrinio cyffredinol heb bryderon penodol ymlaen llaw (Shahnin, Zafar a Ahmed, 2020). Yn ogystal, mae tystiolaeth ar niwed posibl sgrinio neu ymyriadau'n gyfyngedig (Jullien, 2021). Yn ogystal, mae credoau traddodiadol megis y syniad bod oedi lleferydd yn rhedeg yn y teulu yn aml yn arwain at bolisi aros a gwyllo, sydd yn ei dro yn achosi oedi pellach mewn diagnosis ac ymyrraeth amserol (Kanhare a Sunderajan, 2019). Yn wyneb yr heriau hyn, mae gwerthusiad beirniadol ac asesu trylwyr gan arbenigwyr yn hanfodol i sicrhau dealltwriaeth gywir o anghenion plentyn ac i lywio cymorth effeithiol.

Rhwyrstr

Gall oedi lleferydd ac iaith ymhlith plant arwain at broblemau rhyngweithio cymdeithasol, anawsterau talu sylw, gallu ysgrifennu a darllen llai, a datblygiad gwybyddol ac ymddygiadol gwael (Moges, Mengistu a Tilahun, 2024). Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall oedi iaith heb ei drin barhau mewn pedwar deg y cant i chwech deg y cant o blant ac mae'r plant hyn mewn risg uwch o broblemau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol a gwybyddol pan yn oedolion (Kanhare a Sunderajan, 2019). Mae anhawster mynegi eu hunain yn nodwedd ganolog ymhlith plant sydd ag oediad iaith, ac mae'n cael effaith sylweddol ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol (Fitir *et al.*, 2025). Pan fydd plant yn methu cyfuno geiriau'n effeithiol, yn cael trafferth ffurfio brawddegau, neu'n profi geirfa gyfyngedig, mae eu gallu i gyfleu anghenion, teimladau a syniadau yn cael ei leihau'n sylweddol (Shahin, Zafar a Ahmed, 2020). Gall y diffyg hwn mewn mynegiant arwain at gamddealltwriaeth mewn rhyngweithio â chyfoedion, gan wneud cyfathrebu chwarae neu gydweithio yn fwy heriol (Favret, 2021). O ganlyniad, mae llawer o blant sydd yn wynebu oediad iaith yn profi lefelau uwch o rwystredigaeth, a gall hyn amlygu ei hun mewn ymddygiad heriol neu wrthdymnu'n gymdeithasol (Sirorious, 2025). Yn ogystal, gall diffyg hyder mewn mynegiant wneud i blant fod yn llai tebygol o ofyn am gymorth, gan arwain at fwy o rwystredigaeth (Ulfa, Hatta a Nashriyah, 2022). Mae anhawster mynegi eu hunain hefyd yn gallu effeithio ar allu cadw rheolaeth emosiynol, gan gynyddu pryder neu rwystredigaeth fewnol (Kim, 2023). Felly, mae darparu cefnogaeth iaith gynnar ac effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi plant i ddatblygu sgiliau mynegiant, gan eu galluogi i gyfathrebu'n llwyddiannus, lleihau pryder a rhwystredigaeth, ac adeiladu hyder wrth gyfathrebu â'u cymuned.



(West Coast University, 2022)

CYFRADDAU OEDIAD IAITH YMHLITH PLANT OED CYN-YSGOL

Pump y Cant i Deuddeg y Cant

CYFRADDAU OEDI MYNEGIANNOL YMHLITH PLANT 18 – 36 MIS

Un deg tri pwynt pump i Undeg saith pwynt pump y Cant

Strategaeth

Mae cymorth un-i-un yn strategaeth allweddol i gefnogi plant sydd ag oediad iaith oherwydd ei allu i ddarparu sylw personol, addasu dysgu i anghenion unigol y plentyn, a hybu hyder mewn cyfathrebu. Pan fydd plant yn cael trafferth mynegi eu hunain, gall y presenoldeb rheolaidd o un-i-un sicrhau bod y plentyn yn derbyn cymorth uniongyrchol ar y sgiliau sydd yn fwyaf angen eu datblygu, megis geirfa, brawddegau llawn, gramadeg, neu ymarferion cyfathrebu cymdeithasol (Antalek, Dixon a Taha, 2025). Mae'r dull hwn yn hwyluso dysgu wedi'i bersonoli, gan ganiatáu i'r ymarferwr addasu'r gweithgareddau i lefel y plentyn, ei gyflymder dysgu, a'i ddiddordebau unigol, sydd yn cynyddu cyfranogiad a chynhyrchiant ieithyddol (Myers, 2018). Yn ogystal, mae cymorth un-i-un yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol lle gall y plentyn wneud camgymeriadau heb deimlo pryder, gan hybu hyder wrth gyfathrebu (Speech and Language UK, 2026). Mae hefyd yn hwyluso cysylltiad cryf rhwng y plentyn a'r ymarferydd sydd yn gallu arwain at ymgysylltiad mwy cadarnhaol â sesiynau iaith a chynyddu diddordeb y plentyn mewn cyfathrebu llafar. O ganlyniad, mae cymorth un-i-un yn strategaeth effeithiol a hanfodol ar gyfer cefnogi plant sydd ag oediad iaith, gan sicrhau bod ymyraethau'n amserol, personol ac yn hyrwyddo datblygiad ieithyddol cadarn.

Casgliad

Mae oediad iaith yn fater datblygiadol cymhleth sydd yn gofyn am adnabod cynnar, asesu trylwyr a dealltwriaeth sensitif o gyd-destun unigol pob plentyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod anhawster mynegiant yn rhwyrstr sylfaenol i ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol, ac y gall effeithiau hirdymor sylweddol godi os na chaiff ei gefnogi'n amserol. Er bod heriau ynghlwm wrth ddiagnosis a sgrinio, mae ymyriadau wedi'u targedu, megis cymorth un-i-un, yn cynnig dull effeithiol o leihau rhwystrau i gyfathrebu drwy ddarparu cefnogaeth bersonol a meithrin hyder.